Tasg 4

Eisiau mynd?

Yn 2024, bydd grŵp o bobl yn mynd i fyw ar blaned Mawrth.

Os ydy pobl eisiau mynd, rhaid anfon fideo.

1. Gwnewch sgript fideo.

   Rhaid dweud:

   - pwy ydych chi
   - ble rydych chi'n byw
   - beth rydych chi'n hoffi gwneud
   - pam rydych chi eisiau byw ar blaned Mawrth. Cofiwch roi digon o resymau da.

   Beth am recordio'r gwaith?

2. Rydych chi'n mynd i fyw ar blaned Mawrth.
   Beth hoffech chi fynd gyda chi?
   - Pa ddillad?
   - Beth arall?

   Gwnewch restr ac yna trafodwch hyn mewn grŵp.
   Dyma ychydig o help i chi:

Beth hoffet ti fynd gyda / efo ti?	**>**	**Hoffwn i fynd â ... achos ...**
Beth wyt ti eisiau mynd gyda / efo ti?	**>**	**Dw i eisiau mynd â ... achos ...** **Rhaid i fi/mi fynd â ... achos ...**

   Cofiwch, rydych chi'n mynd i'r blaned am byth!

3. Mae'r papur lleol yn gofyn i chi ysgrifennu llythyr yn sôn am eich taith i blaned Mawrth.
   Dwedwch:
   - pam rydych chi eisiau mynd
   - beth rydych chi'n mynd gyda / efo chi
   - sut rydych chi'n paratoi
   - sut rydych chi'n mynd i deithio
   - beth rydych chi'n mynd i wneud ar y blaned
   - sut rydych chi'n teimlo – cofiwch roi rhesymau.

4. Hoffech chi fynd i blaned Mawrth i fyw am byth? Pam?
   Dyma ychydig o help i chi:

Hoffwn, achos dw i'n hoffi / mwynhau ...

Hoffwn, achos hoffwn i ...

Hoffwn, achos dw i eisiau ...

Hoffwn i ddim mynd achos dw i ddim yn hoffi / mwynhau ...

Hoffwn i ddim mynd achos dw i ddim eisiau ...

Na hoffwn, achos mae'n well gyda fi ... / mae'n well gen i ...